# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Plas Newydd**

**Ffordd Pwllheli**
**Cricieth**
**LL52 0RR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

03/10/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Plas Newydd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Pangea Healthcare Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 18 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 17 Awst 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Cynhaliwyd yr arolygiad hwn gan AGC yn dilyn pryderon nad oedd y lifft yn gweithio a phryderon gan Wasanaeth Tân De Cymru ynghylch diogelwch tân yn y cartref. Gwnaethom hefyd ystyried a yw'r darparwr a'r unigolyn cyfrifol wedi gwneud unrhyw welliannau gofynnol i'r gwasanaeth yn dilyn y camau gweithredu gofynnol yn yr arolygiad diwethaf. Felly, ni wnaethom ystyried pob thema arolygu yn fanwl.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r amgylchedd, ond mae angen ymdrin â sawl maes a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf o hyd. Gwnaethom nodi sawl mater iechyd a diogelwch sy'n peri pryder o hyd. Gwelsom hefyd faterion hylendid mewn perthynas â'r amgylchedd.

Mae rheolwr newydd yn y gwasanaeth, sy'n goruchwylio'r gwaith rheoli o ddydd i ddydd. Mae'r trefniadau ar gyfer datblygu a hyfforddi pob aelod o'r staff yn mynd rhagddynt, ond mae angen i'r trefniadau hyn barhau er mwyn gwella eu sgiliau a'u gwybodaeth. Nid yw'r lefelau staffio yn ystod y dydd yn digonol i ddiogelu'r bobl rhag y risg o niwed.

Mae'r Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth yn dilyn yr arolygiadau blaenorol yn parhau'n weithredol mewn perthynas â'r amgylchedd, iechyd a diogelwch a goruchwylio'r gwasanaeth. Uwchgyfeiriwyd y maes i'w wella mewn perthynas â storio cyffuriau a reolir i Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth gan nad yw'r cwpwrdd cyffuriau a reolir yn cydymffurfio â gofynion storio diogel o hyd. Oherwydd methiannau parhaus yr Unigolyn Cyfrifol i wneud y gwelliannau gofynnol i'r gwasanaeth, cyhoeddwyd Hysbysiad Gwella i ddiddymu cofrestriad yr Unigolyn Cyfrifol.

## Llesiant

Nid yw'r bobl bob amser yn cael dewis na rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'r staff yn trin y bobl â pharch, a gwelsom y staff yn ymateb i anghenion a dewisiadau'r unigolion. Nid yw rhai o'r bobl yn gallu gadael eu hystafelloedd gwely gan fod y lifft teithwyr wedi torri ac nid yw'r bobl yn gallu mynd i'r lolfa ar y llawr gwaelod pe byddent am wneud hynny.

Nid yw'r bobl bob amser yn gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt ac nid ydynt bob amser yn cael cyfleoedd i ddewis o blith amrywiaeth o weithgareddau. Mae rhai o'r bobl yn gaeth i'w hystafelloedd gwely ac nid ydynt yn cael llawer o gyswllt â'r staff a phobl eraill. Mae eraill yn eistedd yn y lolfa yn gwylio'r teledu. Mae dewis o lyfrau, gemau ac eitemau crefft ar gael yn hwylus o amgylch y cartref, ond ni welsom unrhyw weithgareddau yn cael eu cynnal ar ddiwrnod yr arolygiad. Dywedodd y rheolwr wrthym y byddai cydgysylltydd gweithgareddau o fudd i'r cartref. Dywedodd un unigolyn wrthym fod y cartref yn dawel gan fod ei ffrindiau wedi gadael y cartref; dywedodd ei fod yn cadw'n brysur yn gwneud gwaith brodio, yn darllen y papur newydd ac yn gwneud chwileiriau.

Mae ansawdd yr amgylchedd yn y cartref wedi bod yn broblem ers cryn amser, ac mae sawl mater a godwyd mewn arolygiadau blaenorol yn parhau. Mae rhannau o'r amgylchedd wedi cael sylw, ond mae cyflwr gwael yr adeilad yn golygu nad yw'r bobl bob amser yn cael eu gwerthfawrogi na'u parchu. Nid yw'r amgylchedd yn cefnogi llesiant y bobl, nac yn eu helpu i gyflawni eu canlyniadau dymunol.

## Gofal a Chymorth

Nid yw'r bobl bob amser yn cael gofal a chymorth sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Mae rotas y staff yn dangos bod tri gweithiwr gofal ar ddyletswydd gyda'r nos, fel yr argymhellwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Nid oes digon o staff yn ystod y dydd o ystyried y sefyllfa bresennol yn y cartref ac mae'n peri risg i iechyd a diogelwch y bobl.

Ni all rhai o'r bobl ddewis sut i dreulio eu diwrnod, naill ai yn eu hystafell wely neu yn un o'r ardaloedd cymunedol. Yn ôl yr hyn a welsom, roedd rhai o'r bobl yn eistedd yn y lolfa yn gwylio'r teledu, ond roedd yn rhaid i eraill aros yn eu hystafell wely am nad oeddent yn gallu mynd i lawr y grisiau, gan fod y lifft wedi torri. Clywsom y staff yn siarad Cymraeg a Saesneg â'r bobl yn unol â'u dewisiadau, er mwyn helpu'r bobl i deimlo eu bod yn perthyn.

Yn ystod yr arolygiad hwn, ni wnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer rhoi a storio meddyginiaeth yn fanwl. Yr uwch-staff gofal sy'n gyfrifol am roi a storio meddyginiaeth. Mae'r cyffuriau a reolir wedi cael eu symud i ardal glinigol ddiogel. Nid yw'r cyfleuster storio yn cydymffurfio â'r canllawiau a'r ddeddfwriaeth bresennol. Mewn arolygiadau blaenorol, nodwyd gennym fod angen gwneud gwelliannau o ran storio cyffuriau a reolir yn ddiogel a gwnaethom nodi hyn fel Maes i'w Wella. Ni chafwyd ymateb amserol gan yr Unigolyn Cyfrifol er mwyn bodloni'r canllawiau a'r ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas â storio cyffuriau a reolir yn ddiogel, sy'n peri risg i'r bobl sy'n byw yn y cartref. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y ddau arolygiad blaenorol, gwnaethom nodi materion iechyd a diogelwch a oedd yn ymwneud â pheryglon baglu a'r risg o anaf i'r bobl. Nid ymdriniwyd â rhai o'r risgiau hyn o hyd, ac maent yn parhau i beri risg i iechyd a llesiant y bobl. Mae angen gwaith sylweddol mewn rhannau eraill o'r cartref er mwyn gwella ansawdd bywyd a llesiant y bobl sy'n byw yn y cartref. Mae rhai o'r ystafelloedd gwely, yr ystafelloedd ymolchi a'r coridorau wedi cael lloriau newydd. Mae materion amgylcheddol yn parhau, ac mae risg barhaus i lesiant y bobl, ac felly caiff yr Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth ei ailgyhoeddi. Pan fydd darparwyr yn methu â gweithredu, byddwn yn cymryd camau gorfodi.

Nid yw'r amgylchedd yn annog y bobl i gyflawni eu canlyniadau llesiant personol. Mae sgôr hylendid bwyd y cartref ar gyfer safonau hylendid yn parhau ar lefel o dri allan o bump. Gwelsom fod y gegin wedi cael ei glanhau, ond mae angen gwaith pellach i wella safonau paratoi bwyd a'r ardaloedd gweini. Nid yw rhannau eraill o'r cartref yn lân ychwaith, ac mae angen eu glanhau'n drylwyr, er enghraifft y toiledau, rhai o'r waliau, a'r carpedi. Mae proses barhaus ar waith i recriwtio staff domestig, ac mae dau aelod newydd o staff domestig wrthi'n cael eu cyflogi ar hyn o bryd. Mae materion hylendid a rheoli heintiau yn parhau ac nid ydynt yn hybu llesiant y bobl. Felly, caiff yr Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth ei ailgyhoeddi. Pan fydd darparwyr yn methu â gweithredu, byddwn yn cymryd camau gorfodi.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae angen gwella'r trefniadau llywodraethu yn y cartref er mwyn ategu trefniadau gweithredu'r gwasanaeth. Mae rheolwr newydd yn y gwasanaeth sy'n meddu ar brofiad blaenorol o reoli'r cartref. Mae prosesau parhaus ar waith i recriwtio staff domestig a thasgmon. Gwnaed gwelliannau i'r trefniadau ar gyfer hyfforddi staff. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant diweddar ar ddiogelwch tân a gofalu am bobl sy'n byw gyda dementia.

Nid yw'r bobl bob amser yn cael eu cefnogi gan wasanaeth sydd â digon o staff addas sy'n meddu ar y wybodaeth, y cymhwysedd, a'r sgiliau i ddiwallu eu hanghenion personol. Mae'r trefniadau staffio gyda'r nos wedi gwella, ond ar brydiau gall y trefniadau staffio yn ystod y dydd beri risg o niwed i'r bobl. Nid yw'r darparwr bob amser yn dilyn proses recriwtio a dethol gadarn, gan gynnwys cael geirdaon a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae materion arweinyddiaeth a rheolaeth yn parhau, ac nid ydynt yn hybu llesiant y bobl. Felly, caiff yr Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth ei ailgyhoeddi. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r materion hyn. Pan fydd darparwyr yn methu â gweithredu, byddwn yn cymryd camau gorfodi.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 66 | Nid yw'r darparwr wedi llwyddo i oruchwylio'r trefniadau ar gyfer rheoli'r gwasanaeth yn ddigonol i sicrhau rheolaeth, ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd priodol yn y gwasanaeth. | Heb Gyflawni |
| 57 | Ni all y bobl fod yn dawel eu meddwl bob amser bod yr holl risgiau ymarferol iddynt yn cael eu lliniaru cymaint â phosibl. | Heb Gyflawni |
| 56 | Nid yw'r darparwr wedi llwyddo i sicrhau bod y cartref yn cyrraedd safonau hylendid rhesymol mewn rhai ardaloedd. | Heb Gyflawni |
| 58 | Nid yw'r trefniadau ar gyfer storio cyffuriau a reolir yn ddigonol. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth roi | Heb Gyflawni |

| | | |
|---|---|---|
| | trefniadau ar waith i sicrhau y caiff meddyginiaethau eu storio'n ddiogel. | |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 08/11/2023